# CYFRIFON SWYDDFA OMBWDSMON GWEINYDDIAETH CYMRU

***Ar gyfer y Flwyddyn 1 Ebrill 2001 hyd 31 Mawrth 2002***

Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 10 o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

# Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

## ADRODDIAD BLYNYDDOL I'R CYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2002

### Gwybodaeth Gefndirol

Sefydlwyd swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru o dan Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a daeth i fodolaeth ar 1 Gorffennaf 1999 ar ôl sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad delid swydd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru gan y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth a'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Loegr. Ariennir Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru gan y Cynulliad ond ar wahân iddo.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1998 ac maent yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2001 hyd at 31 Mawrth 2002.

**Nodau ac Amcanion a Phrif Bwrpas**

Nod Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yw ymchwilio i gwynion a wneir gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch camweinyddu yn y Cynulliad ac mewn rhai cyrff cyhoeddus anadrannol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cwynion y gwrthodwyd iddynt gael gafael ar wybodaeth a hynny yn groes i'r Cod Ymarfer ar Gael Gwybodaeth Swyddogol (AOI).

Mae'r Swyddfa'n hollol annibynnol ar Gabinet Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n cyflwyno adroddiadau yn uniongyrchol i'r Cynulliad yn hytrach nag i Ysgrifennydd y Cynulliad.

Prif bwrpas y Swyddfa yw:

- ystyried cwynion a, lle y bo hynny'n briodol, ymchwilio iddynt, gyda'r bwriad o'u datrys mewn modd diduedd ac yn gyflym;
- cyflwyno adroddiadau am y canlyniadau (fel y bo'n briodol) i'r Cynulliad, i achwynwyr ac i gyrff y gwnaed cwynion yn eu herbyn;
- sicrhau y rhoddir iawndal priodol ar gyfer cwynion y ceir bod cyfiawnhad ar eu cyfer; a
- o ran canfyddiadau ymchwiliadau, hyrwyddo mesurau i wella'r gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus o fewn ei hawdurdod.

Y nodau strategol yw:

1. ymdrin â phob cwyn yn ddiduedd, yn wrthrychol, yn effeithiol ac yn gyflym;
2. gwella effeithlonrwydd y Swyddfa; a
3. codi ymwybyddiaeth ymhlith achwynwyr posibl o'r Swyddfa, o'r rheini y gellid disgwyl iddynt droi atynt am gyngor, ac o gyrff o fewn ei hawdurdodaeth a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu arferion da wrth ymdrin â chwynion.

Yn Atodlen 5 i'r cyfrifon hyn ceir Datganiad Adnoddau yn ôl Nodau Adrannol. Mae'r datganiad hwn yn nodi cost ymdrin â phob cwyn yn ddiduedd, yn wrthrychol, yn effeithiol ac yn gyflym.

Mae Grŵp Gwasanaethau Canolog Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth a'r Comisiynwyr Gwasanaeth Iechyd yn cyfrannu at nodau strategol y Swyddfa trwy ddarparu gwasanaethau i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys Adnoddau Dynol, Arian, TG, Rheoli Cyfleusterau ac Eiddo, Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd a Marchnata. Hefyd y grŵp hwn yw'r prif gysylltiad rhwng y Swyddfa ac adrannau canolog y llywodraeth gan gynnwys y Trysorlys a Swyddfa'r Cabinet ar faterion nad ydynt yn ymwneud â gwaith achos.

**Adroddiad Blynyddol**

Mae Adroddiad Adrannol Swyddfa'r Cabinet, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2002, yn cynnwys gweithgareddau a chyflawniadau Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, y Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Gymru, y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth, Comisiynydd Senedd yr Alban dros Weinyddiaeth a'r Comisiynwyr Gwasanaeth Iechyd dros Loegr ac yn yr Alban. Mae hefyd yn nodi datblygiadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol ac yn dadansoddi canlyniad gwariant ariannol dros y pum mlynedd flaenorol ac yn nodi cynlluniau ariannol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar 16 Gorffennaf 2002 (mewn cydweithrediad ag Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Gymru) ac fe'i cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n cynnwys manylion am nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y Swyddfa yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y nifer yr ymchwiliwyd iddynt neu a dderbyniwyd gan y Swyddfa er mwyn iddi ymchwilio iddynt. Mae hefyd yn nodi faint o ymchwiliadau a gwblhawyd. Yn ogystal mae'r adroddiad yn darparu arfarniad o faint o amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau ymchwiliad yn erbyn cerrig milltir y cytunwyd arnynt, gwybodaeth am gyflawniadau pwysig trwy gydol y flwyddyn, a chrynodeb o'r ymchwiliadau.

## ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

### Adolygiad Gweithredol: Cyflawniadau yn ystod 2001-02

Nodir prif gyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf yn fanwl yn yr Adroddiad Blynyddol (gweler uchod) a Chynllun Busnes 2002. Y pwyntiau allweddol yw:

- derbyniwyd 56 o gŵynion newydd, chwech yn fwy (49%) na'r disgwyl, ond wrth eu harchwilio, canfuwyd nad oedd yn bosibl ymchwilio i lawer ohonynt, a dim ond pedwar achos newydd a nodwyd yn ystod y flwyddyn;
- cyrhaeddwyd lefelau perfformiad uchel iawn ar gyfer sgrinio achosion newydd, gyda 100% o'r achosion a oedd yn amlwg y tu hwnt i awdurdodaeth yn cael eu datrys ymhen pythefnos ac 88% o'r achosion nad oeddent yn amlwg y tu hwnt i awdurdodaeth yn cael eu datrys neu SOC yn cael ei gyflwyno o fewn chwe wythnos; a
- arweiniodd cymhlethdod cynyddol yr achosion yr ymchwiliwyd iddynt at gynnydd yn yr amseroedd ymchwilio ar gyfartaledd, o 44 o wythnosau i 59 o wythnosau.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2002-03

Mae'n rhaid adeiladu ar gyflawniadau'r flwyddyn flaenorol er mwyn ein galluogi i ymdrin â baich gwaith trwm yn effeithlon ac yn effeithiol (ac er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â'r gŵyn yn derbyn y penderfyniadau). Bydd hyn yn golygu bod angen i'r Swyddfa barhau i ddatblygu ac addasu. Ymddengys yn ddoeth ein bod yn caniatáu i fwy o gŵynion gael eu derbyn a rhagwelwn y byddwn yn derbyn tua 60 ohonynt. Rydym hefyd yn disgwyl i nifer yr achosion y gellir ymchwilio iddynt gynyddu yn 2002-03. Disgwylir i'r amser ar gyfartaledd ar gyfer ymchwilio i achosion ostwng i 53 o wythnosau. Mae'r pwysau canlyniadol yn debygol o roi gwerth ar werthoedd craidd y Swyddfa o ran awdurdod, annibyniaeth a thegwch: nid ydynt wedi newid ac mae'n rhaid eu cadw tra'n newid ac addasu i ymdrin â baich gwaith cynyddol.

## BUDDSODDI AR GYFER Y DYFODOL

### Gwariant Cyfalaf

Nid oes gan Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru unrhyw wariant cyfalaf. Darperir offer cyfalaf gan y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth sy'n codi tâl gwasanaeth am hwn (gweler Nodyn 1 i'r cyfrifon hyn).

### Datblygu Staff

Mae llwyddiant y Swyddfa yn dibynnu i raddau helaeth ar sgiliau a barn y staff. Bydd y Swyddfa'n parhau i neilltuo adnoddau i hyfforddiant a datblygiad. Yn 2001-02 gwariodd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Gymru £3,600 ar hyfforddiant a datblygiad o ffynonellau allanol, ac ar gyfer 2002-03, mae'r swyddfeydd wedi cyllidebu tua £5,900 ar gyfer y maes pwysig hwn.

### Gwariant yn erbyn canlyniad

Y gost weithredol net ar gyfer y cyfnod oedd £91,242 (o'i gymharu â £84,000 ar gyfer 2000-01) ac yn erbyn gwariant amcangyfrifedig o £90,000.

## ADOLYGIAD ARIANNOL

### Ariannu

Cynulliad Cymru sy'n darparu'r awdurdod ar gyfer ariannu gweithgareddau'r Swyddfa. Mae'r datganiad llif arian yn Atodlen 4 yn dangos bod y Swyddfa wedi gwario'r arian a dderbyniwyd ar weithgareddau gweithredu (£91,000). Mae mantolen y Swyddfa (Atodlen 3) yn dangos strwythur syml. Heb unrhyw asedau diriaethol ei hun, dim ond £2,000 a ddangosir ar y fantolen fel gweddill gan ddyledwyr sy'n ddyledus i'r Swyddfa gan Gynulliad Cymru, a gweddill o £2,000 gan gredydwyr yw'r arian sy'n ddyledus i'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth am wasanaethau a ddarparwyd i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru. Y swm hwn yw'r arian a wariwyd gan y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth sydd wedi mynd y tu hwnt i'r amcangyfrif a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau y cyflawnir dyletswyddau Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn effeithiol.

### Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

Penodiad gan y Goron yw Swydd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar gyngor Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Penodwyd Syr Michael Buckley, sef y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth a'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Loegr (a leolir yn Llundain), i'r Swydd dros dro hyd nes y gwna'r Cynulliad drefniadau eraill. O 4 Tachwedd 2002, Ms Ann Abraham fydd yn ei olynu yn y swyddi hyn.

### Grŵp Rheoli

Caiff Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ei gynghori a'i gynorthwyo wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol gan aelodau hŷn o staff Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth a'r Comisiynwyr Gwasanaeth Iechyd. Ar 31 Mawrth 2002, yr aelodau hyn o staff oedd:

| | |
|---|---|
| Syr Michael Buckley | *Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru* |
| Ms H Scott | *Y Dirprwy Gomisiynydd Gwasanaeth Iechyd* |
| Mr A Watson | *Y Dirprwy Gomisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth* |
| Mr J Stevens | *Prif Swyddog Staff a Chyllid* |

### Taliadau i'r Comisiynydd ac i Aelodau'r Grŵp Rheoli

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, nid oes gan Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru hawl i unrhyw gyflog am y penodiad gan mai ef yw'r Comisiynydd Seneddol hefyd. Fel y Comisiynydd Seneddol, fe'i telir fel pe bai'n Ysgrifennydd Parhaol yn y Gwasanaeth Sifil Cartref ar gyflog sy'n cyfateb i gyflog Barnwr yn Uchel Lys yn Lloegr, er na ffurfio lwyd y cysylltiad hwn â chyflog Barnwr yn yr Uchel Lys. Codir cyflog y Comisiynydd, yr arolygir ei lefel yn flynyddol ym mis Ebrill, yn uniongyrchol ar y Gronfa Gyfunol.

Ym 1999/2000 cafodd cyflog y Comisiynydd ei drin fel eitem anariannol. Yn 2000/2001 codwyd tâl ar y Cynulliad am wasanaethau'r Comisiynydd. Codir y tâl ar gyfer 2001/2002 hefyd ac fe'i cynhwysir yn y datganiadau ariannol hyn fel eitem ariannol.

Mae'r taliadau a wneir i aelodau'r Grŵp Rheoli'n seiliedig ar berfformiad ac fe'u pennir trwy Strwythur yr Uwch Wasanaeth Sifil yn unol â'r rheolau a nodir ym mhennod 7.1, Atodlen A i God Rheolwyr y Gwasanaeth Sifil.

**Rhwymedigaethau Pensiwn**

Cyflawnir rhwymedigaethau pensiwn y Swyddfa o ran ei chyflogeion presennol a chyn gyflogeion trwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) sy'n anghyfrannol ac nas ariennir. Er y diffinnir y PCSPS fel cynllun â buddiannau terfynol mae'r Swyddfa'n talu cost yr yswiriant pensiwn a ddarperir ar gyfer ei staff trwy dalu'r costau ar sail groniadol.

**Polisi Cyflogaeth**

Mae Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bob aelod o'i staff. Ymrwymodd y Swyddfa i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, yn ogystal ag i fodloni gofynion statudol eraill hefyd. Anogir datblygiad personol trwy hyfforddiant, a lle bo'n gysylltiedig â swydd, darperir cymorth ariannol. Asesir yr aelodau staff sy'n gweithio llai o oriau ar yr union un sail â'r rhai sy'n gweithio llawn amser. Mae cyfleusterau lles ar gael i aelodau staff a gallant ymuno ag undeb a chael eu cynrychioli gan undeb.

Mae'r Swyddfa yn cadw at Orchymyn Cyfrin-Gyngor y Gwasanaeth Sifil 1995 ac mae'n recriwtio ar yr egwyddor y dewisir ymgeiswyr yn ôl eu teilyngdod trwy gystadleuaeth deg ac agored yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan God Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

**Datganiad Arfer Talu**

Mae'r Swyddfa wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Safon Brydeinig ar gyfer Sicrhau Perfformiad Da o ran Talu mewn Trafodion Masnachol (BS 7890). Y polisi parthed talu yw talu anfonebau yn unol ag amodau cytundebol y cytunwyd arnynt neu, pan nad yw'r fath amodau cytundebol yn bod, o fewn 30 o ddyddiau ar ôl iddi dderbyn nwyddau a gwasanaethau neu i anfoneb ddilys gael ei chyflwyno, p'un bynnag yw'r diweddaraf. Yn ystod 2001/02 talwyd 96.96% (96.7% yn 2000/01) o anfonebau yn unol â'r polisi hwn.

**Archwilwyr**

Archwilir cyfrifon Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn unol â Pharagraff 10(2) o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Digwyddiadau ers diwedd y Flwyddyn Ariannol**

Ni fu unrhyw ddigwyddiad ers dyddiad y Fantolen a gâi effaith ar y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2002.

M.S. Buckley
Swyddog Cyfrifo

24 Hydref 2002

## Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

## DATGANIAD AR GYFRIFOLDEB Y SWYDDOG CYFRIFO

1. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 mae'n ofynnol i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfarwyddyd y Trysorlys, gan fanylu ar yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddelir, neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd a wnaed o adnoddau gan yr adran yn ystod y flwyddyn.

2. Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail groniadol ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Swyddfa, y canlyniad adnoddau net, yr adnoddau a gymhwyswyd i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

3. Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yw'r Swyddog Cyfrifo i Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi cyfrifon y Swyddfa ac am eu trosglwyddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a baratowyd gan y Trysorlys, ac yn arbennig mae'n ofynnol iddo:
   - dilyn y gofynion perthnasol o ran cyfrifo a datgelu, a gweithredu polisïau cyfrifo addas yn gyson;
   - rhoi ei farn a bwrw amcangyfrifon yn rhesymol;
   - datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo perthnasol, fel y nodir yn y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau pwysig yn y cyfrifon;
   - paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

5. Nodir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau'r Swyddfa ym memorandwm y Swyddogion Cyfrifo, a gyflwynwyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn *Government Accounting.*

M.S. Buckley　　　　24 Hydref 2002
Swyddog Cyfrifo

## Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

## DATGANIAD AR Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu nod y Swyddfa, fel y'i diffiniwyd yn ôl statud, a'i nodau a'i hamcanion strategol, tra'n diogelu arian y cyhoedd a'r asedau yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi yn Government Accounting.

Mae'r systemau sydd ar waith:

- yn seiliedig ar broses barhaus sy'n nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Swyddfa, ac sy'n gwerthuso natur a graddau'r risgiau hynny gan eu rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

- wedi'u cynllunio i reoli'r risg o fethu â chyflawni nodau ac amcanion y Swyddfa, yn hytrach na'u dileu, a dim ond sicrwydd rhesymol o'i heffeithiolrwydd, ac nid sicrwydd llwyr, y gallant ei ddarparu.

Bu'r broses hon ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n cydymffurfio â'r arweiniad a nodwyd gan y Trysorlys.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Mae'r Swyddfa wedi sefydlu'r prosesau canlynol:

- mae grŵp rheoli o dan fy nghadeiryddiaeth i yn cyfarfod yn fisol i ystyried cynlluniau, targedau a chyfeiriad strategol y Swyddfa gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad a risg allweddol;

- mae ein proses cynllunio busnes yn gwerthuso perfformiad, cynlluniau a thargedau'r gorffennol ac mae'n pennu cynlluniau a thargedau i'w cyflawni; mae'r cynllun busnes ar gyfer 2002-03 a'r blynyddoedd nesaf yn gwerthuso'r risgiau i'r rhain a'r strategaeth ar gyfer eu rheoli;

- mae'r Swyddfa wedi mabwysiadu proses o asesu risg sy'n cynnwys mapio meysydd risg allweddol sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. Mae'r broses hon yn llywio'r penderfyniadau a wneir gan reolwyr ac mae'n ddylanwadol wrth bennu'r rhaglen archwilio mewnol;

- mae'r pwyllgor archwilio yn ymgymryd ag adolygiad blynyddol o'r cynlluniau archwilio mewnol,gan gynnwys yr asesiad risg ac mae'n cyfarfod yn gyfnodol i dderbyn ac adolygu adroddiadau gan Archwilwyr Mewnol ac Allanol sy'n ymwneud â rheolaethau mewnol;

- mae'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn annibynnol ar y Swyddfa. Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu yn ôl safonau a ddiffiniwyd yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Maent yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn annibynnol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system y Swyddfa o reolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;

- adroddiadau rheolaidd gan reolwyr ar y camau a gymerir i reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb hwy, gan gynnwys adroddiadau ar gynnydd projectau allweddol;

- rhoddwyd cynllun parhad busnes ar waith, a chaiff ei adolygu a'i roi ar brawf yn gyfnodol er mwyn darparu ar gyfer adferiad fesul cam o ddigwyddiadau a fyddai'n amharu ar ein gallu gweithredol;

- mae projectau mawr yn agored i Adolygiad Porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth, gan gynnwys methodoleg blaenoriaethu gadarn yn seiliedig ar raddio risg a dadansoddiad o fuddiant costau.

Yn ogystal â'r gweithrediadau a grybwyllwyd uchod, yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd y Swyddfa, mewn cydweithrediad â'i harchwilwyr, yn parhau i adolygu ei systemau a'i gweithdrefnau mewn perthynas â risg er mwyn sicrhau bod y broses o reoli risg yn rhan ganolog o'r strwythur rheoli llinell er mwyn bodloni gofynion y Trysorlys ar reolaeth gorfforaethol.

Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr adran sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a chan sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Fel y Swyddog Cyfrifo, rwyf yn ymwybodol o argymhellion Pwyllgor Turnbull ac rwyf wedi cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â gofyniad y Trysorlys bod datganiad llawn o reolaeth fewnol yn cael ei baratoi ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2003 yn unol ag arweiniad a gyhoeddir ganddynt.

M.S. Buckley
Swyddog Cyfrifo 24 Hydref 2002

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILIWR CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Ardystiaf i mi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 11 i 22 yn unol â Pharagraff 10(2) o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 16 ac 17.

**Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd**

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 6 mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed yn unol â'r gofynion hynny, ac am sicrhau bod y trafodion ariannol yn gyson. Mae'r Ombwdsmon hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair. Mae fy nghyfrifoldebau i, fel yr archwilydd annibynnol, wedi'u sefydlu gan statud ac fe'u cyfarwyddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio a chan arweiniad moesol y proffesiwn archwilio.

Rwyf yn datgan fy marn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a baratowyd hwy yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ac â chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan y ddeddf honno, ac, ym mhob ffordd berthnasol, a gymhwyswyd y gwariant at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn nodi os nad yw'r Rhagair yn gyson â'r datganiadau ariannol, os na chadwodd yr Ombwdsmon gofnodion cyfrifo cywir, neu os na dderbyniais yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Rwyf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalen 7 yn adlewyrchu'r graddau y mae'r Ombwdsmon yn cydymffurfio ag arweiniad y Trysorlys 'Rheolaeth gorfforaethol: datganiad ar y system rheoli arian yn fewnol'. Rwyf yn datgan os nad yw'n bodloni'r gofynion a nodir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a geir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau pwysig a wnaed gan yr Ombwdsmon wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo'n briodol i amgylchiadau'r Swyddfa, a weithredir hwy'n gyson ac a ddatgelir hwy yn ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad yn y fath fodd fel bod gennyf yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau yr oeddwn o'r farn eu bod yn angenrheidiol i ddarparu digon o dystiolaeth ar fy nghyfer fel y gallwn roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad pwysig, p'un a achoswyd hyn trwy gamgymeriad, neu dwyll neu drwy ryw anghysondeb arall ac, ym mhob ffordd berthnasol, a bod y gwariant wedi ei gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn, gwerthusais pa mor ddigonol, yn gyffredinol, yw'r modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar 31 Mawrth 2002 ac o'r canlyniad adnoddau net, yr adnoddau a gymhwyswyd i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben bryd hynny ac fe'u paratowyd yn gywir yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ac â chyfarwyddiadau a wnaed o dan y ddeddf honno gan y Trysorlys; a

- ym mhob ffordd berthnasol defnyddiwyd y gwariant at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru
15 Ionawr 2002

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD CF99 1NA

## SWYDDFA OMBWDSMON GWEINYDDIAETH CYMRU

## CRYNODEB O GANLYNIAD ADNODDAU

*am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002*

| | 2001/2002 | | | | | | 2000/ 2001 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Amcangyfrif** | | | **Canlyniad** | | | |
| | Gwariant Gros £000 | Dosbarthwyd mewn Cymorth £000 | Cyfanswm Net £000 | Gwariant Gros £000 | Dosbarthwyd mewn Cymorth £000 | Cyfanswm Net £000 | Canlyniad y Flwyddyn Flaenorol £000 |
| Costau gweinyddol | 90 | - | 90 | 91 | - | 91 | 84 |

**Cysoni canlyniad adnoddau i'r gofyniad arian net:**

| | £000 | £000 |
|---|---|---|
| Canlyniad Cyfanswm yr Adnoddau (Atodlen 2) | 91 | 84 |
| Addasiadau croniadau: | | |
| Symudiadau mewn cyfalaf gwaith anariannol (Nodyn 6) | - | - |
| Gofyniad Arian Net (Atodlen 4) | 91 | 84 |

1. Am ddadansoddiad o wariant canlyniad, gweler Atodlen 2 a Nodiadau 3 a 4 i'r cyfrifon hyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## SWYDDFA OMBWDSMON GWEINYDDIAETH CYMRU

### DATGANIAD COST GWEITHREDU

*am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002*

| | Nodyn | 2001/2002<br>£000 | 2000/2001<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddol:** | | | |
| Costau staff | 2 | 52 | 45 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 39 | 39 |
| **Costau Gweinyddol Gros** | | 91 | 84 |
| Incwm gweithredu | | - | - |
| **Cost Weinyddol Net** | | 91 | 84 |
| **COST WEITHREDU NET** | 5 | 91 | 84 |
| **CANLYNIAD ADNODDAU NET** | 5 | 91 | 84 |

Dechreuodd pob gweithgaredd yn ystod y cyfnod ac maent yn parhau. Nid oes unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ar wahân i'r rhai a nodir yn y Datganiad Cost Gweithredu.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## SWYDDFA OMBWDSMON GWEINYDDIAETH CYMRU

## MANTOLEN

***ar 31 Mawrth 2002***

| | Nodyn | 2001/2002 | | 2000/2001 (fel yr ailddatganwyd) | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | | £000 | |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 7 | 2 | | 1 | |
| Arian yn y Banc ac mewn Llaw | 8 | - | 2 | - | 1 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | | | |
| Credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 9 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| **Asedau Cyfredol Net** | | | - | | - |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | | | - | | - |

M S Buckley
Swyddog Cyfrifo

24 Hydref 2002

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## SWYDDFA OMBWDSMON GWEINYDDIAETH CYMRU

## DATGANIAD LLIF ARIAN

*am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002*

| | Nodyn | 2001-02 | 2000-2001 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | | (91) | (84) |
| Ariannu gan Gynulliad Cymru | 13 | 91 | 84 |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Arian Parod** | | - | - |

**Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian**

| | Nodyn | 2001-02 | 2000-2001 |
|---|---|---|---|
| **Cysoni cost gweithredu i'r llifau arian gweithredu** | | | |
| Cost gweithredu net | | 91 | 84 |
| Gwasanaethau Safonol y Gronfa Gyfunol | | - | - |
| Addasiad ar gyfer: | | | |
| Eitemau anariannol | 3 | - | - |
| Symudiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian | 6 | - | - |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **91** | **84** |

**Dadansoddi'r dull ariannu**

| | Nodyn | 2001-02 | 2000-2001 |
|---|---|---|---|
| Ariannu gan Gynulliad Cymru | | 91 | 84 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad mewn Arian Parod | | - | - |
| **Gofyniad arian net (Atodlen 1)** | | **91** | **84** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Atodlen 5

## SWYDDFA OMBWDSMON GWEINYDDIAETH CYMRU

### ADNODDAU YN ÔL NODAU ADRANNOL

*am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002*

| | 2001/2002 | | | 2000/2001 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Net | Gros | Incwm | Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Amcan: | | | | | | |
| Ymdrin â phob cwyn a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn ddiduedd, yn wrthrychol, yn effeithiol ac yn gyflym. | 91 | - | 91 | 84 | - | 84 |
| Costau Gweithredu Net | 91 | - | 91 | 84 | - | 84 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Nodyn 1**

## Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau

### 1. Datganiad Polisïau Cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Disgrifir isod y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol mewn cysylltiad â'r cyfrifon.

### *1.1 Confensiwn Cyfrifo*

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol. Nid oedd gan y Swyddfa unrhyw asedau sefydlog na stoc yn ystod y cyfnod.

### *1.2 Asedau Sefydlog Diriaethol*

Nid oedd gan Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru unrhyw asedau sefydlog ar 31 Mawrth 2002. Telir tâl gwasanaeth sy'n daladwy i Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth a'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Loegr ar gyfer defnyddio ei hoffer yn ystod y cyfnod y mae'n digwydd.

### *1.3 Tâl Cyfalaf*

Cynhwysir tâl cyfalaf anariannol, sy'n adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddiwyd gan Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, yn y costau gweithredu ac fe'i cyfrifir ar chwech y cant mewn termau real ar bob ased llai rhwymedigaethau ar wahân i'r gweddill ariannol gyda Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol.

### *1.4 Treth ar Werth*

Ni chofrestrwyd Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar gyfer TAW yn ystod y cyfnod. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y pennawd treuliau mwyaf priodol.

### *1.5 Pensiynau*

Cwmpesir cyflogeion presennol a chyn gyflogeion gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) sy'n gynllun buddiannau diffiniedig, sydd i raddau helaeth yn anghyfrannol ac yn un nas ariennir yn bennaf. Mae'r Swyddfa yn cydnabod y gost ddisgwyliedig sy'n gysylltiedig â darparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa ar wasanaethau'r cyflogeion drwy dalu symiau a gyfrifir ar sail groniadol i'r PCSPS. Tâl a godir ar y PCSPS yw'r atebolrwydd am dalu buddiannau yn y dyfodol.

Mae'r Comisiynydd Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn aelod o'r PCSPS.

### *1.6 Prydlesi Gweithredu*

Rhoddir gwariant o dan brydlesi gweithredu ar y Datganiad Cost Gweithredu yn y cyfnod y mae'n digwydd ynddo.

### *1.7 Costau Staff a Chostau Gweinyddol Eraill*

Codwyd yr holl gostau o ran cyflogau a chostau cysylltiedig ar gyfer staff a leolir yn Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn llawn ar y cyfrifon hyn.

Caiff pob gwariant arall a werir ar ran Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ei ddyrannu a'i godi ar y cyfrifon yn unol â'r polisïau a nodir isod (yn i-iii). Bwriedir i'r dulliau o ddyrannu costau roi'r darlun gorau o gostau cynnal swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru.

i) Yn ystod y flwyddyn bu Cyfarwyddwr Gweithredol, wedi'i leoli yn Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth a'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Loegr yn Llundain, yn rheoli uned ymchwilio Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru. Codir costau cyflog a chostau cysylltiedig y Cyfarwyddwr, gan gynnwys costau ei ysgrifenyddes bersonol, ar Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar sail sy'n gymesur â'r modd y rhennir ei gyfrifoldebau. Ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2001 hyd 31 Mawrth 2002 yr oedd hyn yn 50 y cant o gostau cyflog a chostau cysylltiedig y Cyfarwyddwr;

ii) Dosberthir deg y cant o gostau cyflog a chostau cysylltiedig y Dirprwy Gomisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Loegr, gan gynnwys costau ei ysgrifenyddes bersonol, i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru;

iii) Dosberthir costau gorbenion a gaiff eu gwario gan Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth a'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Loegr, megis cyflogau Gwasanaethau Canolog, costau gweinyddol canolog eraill, ac asedau a dyledion cyfredol, yn seiliedig ar nifer yr unigolion dan sylw i Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Gymru. Y ganran a ddefnyddir ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2001 hyd at 31 Mawrth 2002 yw 3.5% (2000/2001 3%); fe'i rhennir ymhellach ar gymhareb o 6:1 rhwng y Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Gymru ac Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn y drefn honno.

### *1.8 Ailddatgan cyfrifon*

Yn unol â'r Memorandwm o Ddealltwriaeth y cytunwyd arno rhwng y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth ac Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, cytunwyd y bydd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, ar ôl cwblhau'r archwiliad statudol o'r cyfrifon, yn cadarnhau gweddill yr arian sy'n ddyledus i'r Cynulliad neu i'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth ac yn ei wrthbwyso yn erbyn y treuliau a dalwyd yn ystod y flwyddyn. Felly, ailddatganwyd y cyfrifon ar gyfer 2000-2001 er mwyn sicrhau cysondeb at ddibenion cymharu a dangosir hyn yn Atodlen 3 a Nodiadau 7, 9 ac 13.

## 2 Niferoedd a Chostau Staff

Roedd nifer y bobl ar gyfartaledd a gyflogwyd mewn swyddi cyfartal ag amser llawn (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **2001/2002** | **2000/2001** |
|---|---|---|
| | *Nifer* | *Nifer* |
| Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru | 1.0 | 1.0 |
| Staff sefydlog a staff cynorthwyol | 0.4 | 0.2 |
| | 1.4 | 1.2 |

Delir Swydd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru gan y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth. Penodir yr Ombwdsmon gan EM y Frenhines, ac mae'n hollol annibynnol ar y Llywodraeth. Telir cyflog y Comisiynydd o'r Gronfa Gyfunol ac mae'n cyfateb i gyflog Barnwr Grŵp 4 yn yr Uchel Lys. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2002 y cyfanswm a dalwyd ar gyfer cyflog y Comisiynydd oedd £132,603 (£127,872 yn 2000/2001). Cynhwyswyd dosraniad o'r gost hon o fewn y cyfrifon hyn ar gyfer ei benodiad fel Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar sail y polisi fel y'i nodir yn Nodyn 1.

Roedd costau cyflogres crynswth y bobl hyn fel a ganlyn:

| | **2001/2002** | **2000/2001** |
|---|---|---|
| | *£000* | *£000* |
| Cyflogau | 43 | 37 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 3 | 3 |
| Costau Pensiwn Eraill | 6 | 5 |
| | 52 | 45 |

Cynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr nas ariennir yw'r PCSPS, ond ni all y Swyddfa nodi ei chyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 31 Mawrth 2000 a cheir manylion hwn yn natganiad cynllun ar wahân y PCSPS. Ar gyfer 2001-02, roedd cyfraniadau arferol gan gyflogwyr o £879,687 yn daladwy i'r PCSPS (2000-01 £803,534) ar gyfraddau yn yr ystod 12 i 18.5 y cant o gyflog pensiynadwy. Cytunwyd y bydd cyfraniadau yn aros ar y lefel honno am y ddwy flynedd nesaf. Adolygir cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr bob tair blynedd yn dilyn prisiad cynllun gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu buddiannau wrth iddynt gronni, nid pan delir y costau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

Roedd hawliau cyflog a phensiwn y rheolwyr uchaf o ran swyddi yn  y Swyddfa fel a ganlyn:

| **Enw, teitl ac oedran (mewn blynyddoedd)** | **Cyflog gan gynnwys tâl yn ôl perfformiad** | | **Gwir gynnydd Mewn pensiwn yn 60 oed** | | **Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2002** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2001/02** | **2000/01** | **2001/02** | **2000/01** | **2001/02** | **2000/01** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Hilary SCOTT | 80-85 | 75-80 | 0-2.5 | 0-2.5 | 0-5 | 0-5 |
| *Y Dirprwy Gomisiynydd Gwasanaeth Iechyd (47)* | | | | | | |
| Alan WATSON | 70-75 | 65-70 | 0-2.5 | 2.5-5.0 | 35-40 | 30-35 |
| *Y Dirprwy Gomisiynydd Seneddol drc Weinyddiaeth (59)* | | | | | | |
| John STEVENS | 65-70 | 60-65 | 0-2.5 | 0-2.5 | 25-30 | 20-25 |
| *Prif Swyddog Staff a Chyllid (49)* | | | | | | |

Mae'r ffigurau cyflogau a phensiynau a ddarperir yn y tabl uchod yn cynrychioli hawliau llawn. Darperir gwybodaeth bellach yn Nodiadau a-c isod. Cynhwyswyd dosraniad o'r costau hyn o fewn y cyfrifon hyn fel yr eglurir yn Nodyn 1.7.

**Nodiadau**

a. Mae "Cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth; tâl perfformiad neu fonysau; goramser; hawliau neilltuedig i lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n agored i drethi'r DU. Nid yw gwerth ariannol buddiannau mewn da yn rhan o gyflogau at ddibenion datgelu o dan gyfrifo adnoddau.

b. Darperir buddiannau pensiwn trwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Cynllun statudol ydyw sy'n darparu buddiannau ar sail 'cyflog terfynol' yn 60 oed, sef yr oedran ymddeol arferol. Mae buddiannau'n cronni yn ôl cyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn yn daladwy ar ôl ymddeol. Mae aelodau'n talu cyfraniadau o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy. Mae taliadau pensiynau'n cynyddu yn unol â'r Mynegrif Prisiau Manwerthol. Ar ôl marw, mae pensiynau'n daladwy i'r gŵr neu'r wraig briod sy'n goroesi ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bydd yr aelod yn marw tra yn y swydd bydd y cynllun yn talu budd cyfandaliad o ddwywaith y cyflog pensiynadwy ac mae hefyd yn talu swm ychwanegol drwy gyfrifo pensiwn y cymar. Mae'r swm a ychwanegir yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fynd dros 10 mlynedd. Gall aelod ymddeol am resymau meddygol os bydd yn ddifrifol wael. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb eu gostwng yn actiwaraidd a chyda thaliadau ychwanegol yn seiliedig ar wasanaeth fel yn achos pensiynau gwŷr a gwragedd gweddw.

c. Ni dderbyniodd unrhyw un o'r uchod fuddiannau mewn da.

## 3. Costau Gweinyddol Eraill

| | 2001/2002 | | 2000/2001 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | | £000 | |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredu: | 6 | 6 | 7 | 7 |
| Eitemau anariannol: | | | | |
| Cost y Tâl Cyfalaf | - | - | - | - |
| Gwariant arall: | | | | |
| Tâl Gwasanaethau canolog | 7 | | 6 | |
| Ffi archwilio allanol | 4 | | 4 | |
| Teithio a chynhaliaeth | 3 | | 3 | |
| Lletygarwch | - | | - | |
| Cyflog y Comisiynydd | 1 | | 1 | |
| Ymgynghoriad gan Ymgynghorwyr Proffesiynol Allanol | - | | | |
| Tâl gwasanaeth am asedau sefydlog | 4 | | 4 | |
| Cyflenwadau swyddfa, offer a gwasanaethau | 14 | | 14 | |
| Cyfanswm y Gwariant Arall | | 33 | | 32 |
| **Cyfanswm y Costau Gweinyddol Eraill** | | **39** | | **39** |

## 4. Incwm Gweithredu

Nid yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Gymru yn codi ffïoedd ar gyfer ymchwilio i gwynion ac felly nid oes gan y Swyddfa incwm gweithredu. Ymdrinnir ag arian amrywiol a dderbynnir fel CFER a'i drosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol yn y flwyddyn ddilynol. Ni dderbyniwyd incwm o'r fath yn ystod y flwyddyn. (2000/2001 - dim hefyd).

## 5. Cysoni Costau Gweithredu Net i Ganlyniad Adnoddau Net

| | 2001/2002 | 2000/2001 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Cost gweithredu net** | **91** | **84** |
| *Llai:* - Gwariant ar gyflenwi a gwariant arall y tu allan i'r gyllideb adnoddau | - | - |
| *Ychwanegu:* - | | |
| Incwm gweithredu nas dosberthir yn | | |
| Ddosbarthiadau mewn cymorth ac nid mewn gwariant cyhoeddus wedi'u sgorio fel Derbyniadau | | |
| Ychwanegol y Gronfa Gyfunol | - | - |
| **Canlyniad adnoddau net** | **91** | **84** |

## 6. Symudiadau mewn Cyfalaf Gwaith Heblaw Arian

| | 2001/2002 | 2000/2001 (fel yr ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn dyledwyr | 1 | - |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn credydwyr | (1) | - |
| **Symudiad net mewn cyfalaf gwaith anariannol** | - | - |

## 7. Dyledwyr

| | 2001/2002 | 2000/2001 (fel yr ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| | *£000* | *£000* |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau sy'n ddyledus gan y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth | - | 1 |
| Symiau sy'n ddyledus gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 2 | - |
| | 2 | 1 |

Fel yr eglurir yn Nodyn 1.8, mae'r credydwyr ar gyfer 2000-01 wedi'u hailddatgan er mwyn sicrhau cysondeb at ddibenion cymharu.

## 8. Arian yn y Banc ac mewn Llaw

Nid oedd gan Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru Arian yn y Banc nac mewn llaw ar gyfer y cyfnod 31 Mawrth 2002. Gwnaed yr holl daliadau gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd dros Loegr ar ran Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru.

## 9. Credydwyr: Symiau sy'n Ddyledus o fewn Blwyddyn

| | 2001/2002 | 2000/2001 (fel yr ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| | *£000* | *£000* |
| Symiau sy'n ddyledus i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | - | 1 |
| Symiau sy'n ddyledus i'r Comisiynydd Seneddol | 2 | - |
| **Cyfanswm sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 2 | 1 |

Fel yr eglurir yn Nodyn 1.8, mae'r credydwyr ar gyfer 2000-01 wedi'u hailddatgan er mwyn sicrhau cysondeb at ddibenion cymharu.

## 10. Ymrwymiadau O Dan Brydlesi Gweithredu

| | 2001/2002 | | 2000/2001 | |
|---|---|---|---|---|
| | Adeiladau | Arall | Adeiladau | Arall |
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* |
| Ar 31 Mawrth 2002 roedd y Swyddfa wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf mewn perthynas â phrydlesi gweithredu'n dod i ben: | | | | |
| ymhen blwyddyn | - | - | - | - |
| rhwng dwy a phum mlynedd | - | - | - | - |
| ar ôl pum mlynedd | 6 | - | 4 | - |
| | 6 | - | 4 | - |

## 11. Rhwymedigaethau Achlysurol

Ar 31 Mawrth 2002, nid oedd unrhyw asedau na rhwymedigaethau amodol.

## 12. Ymrwymiadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2002, nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf.

## 13. Cysoni'r Costau Gweithredu Net i Newidiadau yn y Gronfa Gyffredinol.

| | 2001/2002 | 2000/2001 (fel yr ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| | *£000* | *£000* |
| **Cost gweithredu net am y flwyddyn (Atodlen 2)** | (91) | (84) |
| Ariannu net | 91 | 84 |
| **Cynnydd net yn y gronfa gyffredinol** | - | - |
| Cronfa gyffredinol ar 1 Ebrill 2001 | - | - |
| **Cronfa gyffredinol ar 31 Mawrth 2002 (Atodlen3)** | - | - |

## 14. Paratoi Crynodeb o'r Canlyniad Adnoddau

Mae gan y Swyddfa un prif nod, sef ymdrin â phob cwyn a gyfeirir at y Swyddfa'n ddiduedd, yn wrthrychol, yn effeithiol ac yn gyflym. Dyrennir y gost i'r Swyddfa wrth gyflawni'r nod hon fel a ganlyn.

Priodolir costau sy'n ymwneud yn benodol â Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn uniongyrchol i'r adrannau hynny.

Priodolir costau gweinyddol a chostau sefydlu i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn unol â gweithdrefnau cyfrifo rheoli'r Swyddfa. Y meincnod sylfaenol a ddefnyddir i ddyrannu'r costau uniongyrchol hyn yw nifer y personél.

Ceir disgrifiadau llawn o nodau strategol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn y Rhagair i'r cyfrifon hyn.

## 15. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Ar hyn o bryd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yw'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth a'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Loegr hefyd. O ganlyniad ystyrir bod Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth a'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Loegr a'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Gymru yn bartïon cysylltiedig y cynhaliwyd amryw o drafodion pwysig â hwy yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal cafodd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru nifer fach o drafodion gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyda chyrff eraill llywodraeth ganolog.

Nid ymgymerodd y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth nac unrhyw aelod o'r Gr[illegible]p Rheoli nac unrhyw aelod allweddol o'r staff rheoli ag unrhyw drafodion pwysig gyda'r Swyddfa yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad.

## 16. Offerynnau Ariannol

Mae FRS 13, *Derivatives and Other Financial Instruments*, yn golygu bod angen datgelu'r rôl a chwaraewyd gan offerynnau statudol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau a wynebir gan endid wrth ymgymryd â'i weithgareddau. O ganlyniad i natur ei gweithgareddau, nad ydynt i raddau helaeth yn ymwneud â masnachu, a'r modd yr ariennir cyrff y llywodraeth, nid yw'r Swyddfa'n agored i'r graddau o risg ariannol a wynebir gan rai endidau busnes. At hynny, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o lawer wrth greu neu newid risg a fyddai'n nodweddiadol o gwmnïau rhestredig y mae FRS 13 yn berthnasol iddynt yn bennaf.

Arian parod yw unig offeryn ariannol y Swyddfa.